# CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR DYDD IAU, 13 MAI 2021

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Elwyn Jones (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Edgar Owen, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Simon Glyn yn gadeirydd am 2021/22.**

Darllenodd a llofnododd y Cynghorydd Simon Glyn ddatganiad yn derbyn y swydd o Gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2021/22 ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd dau enw am yr is-gadeiryddiaeth, sef y Cynghorydd Elwyn Jones a'r Cynghorydd Peter Read.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Elwyn Jones yn is-gadeirydd am 2021/22.**

Darllenodd y Cynghorydd Elwyn Jones ddatganiad yn derbyn y swydd o Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd am 2021/22.

Eglurodd y Swyddog Monitro, gan fod yr Is-gadeirydd yn bresennol o bell, y rhoddid trefniadau mewn lle iddo arwyddo'r datganiad ym mhresenoldeb y Prif Weithredwr.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr:- Dylan Bullard, Dylan Fernley, Peredur Jenkins, W.Roy Owen, Jason Parry, Peter Read a Cemlyn Williams.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod fel rhai cywir:-

- 4 Mawrth, 2021
- 23 Ebrill, 2021 (Cyfarfod Arbennig)

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**6. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Rhoddwyd teyrnged gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths i'r diweddar Maldwyn Lewis, Porthmadog – cyn aelod o'r Cyngor hwn a chyn-Gyngor Sir Gwynedd.

Nododd y Cadeirydd mai, gyda thristwch, y clywyd hefyd am farwolaeth sydyn y cyn-Gynghorydd Dewi Llewelyn, fu'n frwdfrydig iawn wrth gynrychioli pobl leol a'i gymuned ym Mangor. Mynegwyd cydymdeimlad dwysaf y Cyngor â'i deulu a'i ffrindiau.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Gwahoddwyd yr Arweinydd i ddweud gair ynglŷn â'r Etholiadau Senedd diweddar. Nododd:-

- Mai dyma'r Cyfarfod Blynyddol diwethaf o'r Cyngor cyn i'r aelodau wynebu etholiadau ym mis Mai y flwyddyn nesaf, a daliodd ar y cyfle i ddiolch i bob aelod am eu cyfraniad gwerthfawr i waith y Cyngor. Nododd hefyd y bu'n bleser ac yn anrhydedd bod yn Arweinydd dros y 4 blynedd ddiwethaf, ac y byddai'n gwneud ei orau eto dros y flwyddyn sy'n weddill o dymor y Cyngor presennol.
- Y dymunai longyfarch Sian Gwenllian a Mabon ap Gwynfor ar gael eu hethol i gynrychioli Arfon a Dwyfor Meirionnydd yn yr Etholiadau Senedd diweddar. Mynegodd ei obaith y byddai'r ddau, fel cyn-gynghorwyr sir, yn cofio am lywodraeth leol yn eu gwaith, ac yn cefnogi pob ymdrech i rymuso ac amddiffyn llywodraeth leol, ac i sicrhau y byddwn yn derbyn cyllid digonol i ymgymryd â'n dyletswyddau.
- Y dymunai ddatgan gwerthfawrogiad i'r aelodau hynny o'r Cyngor oedd wedi sefyll yn yr Etholiadau Senedd, gan ddiolch iddynt am gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.
- Yr hoffai ddymuno'n dda i'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas ar ei ymddeoliad o'r Senedd ar ôl oes o wasanaeth i Gymru, ac yn arbennig i Feirionnydd. Nododd y bu ei waith fel Llywydd y Cynulliad yn allweddol i osod sylfeini cadarn ac i roi statws i'r corff, a diolchodd iddo am ei holl waith, ac am ein cynrychioli cyhyd.
- Bod pobl Cymru wedi rhoi pleidlais o hyder yn y Blaid Lafur, a bod llawer o'r diolch am hynny i'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, am y ffordd bwyllog a gonest y bu iddo ein harwain drwy gyfnod hynod anodd. Roedd y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos y gallai Cymru weithio yn fwy effeithiol, ac yn ddoethach, na Llywodraeth San Steffan, a dangoswyd hefyd yn glir yr angen am lawer iawn mwy o bwerau i Gymru. Roedd her i'r Blaid Lafur ddangos eu bod yn barod i sefyll yn gadarn dros Gymru, gan fynnu mwy o bwerau, ac i sefydlu eu hunain fel plaid annibynnol Gymreig, gan dorri'n rhydd oddi wrth eu cymheiriaid yn Lloegr. Fel Arweinydd y Cyngor dros y flwyddyn nesaf, byddai'n manteisio ar bob cyfle i fynegi'r her yma iddynt.

- Y dymunai groesawu Dafydd Gibbard i'w Gyngor llawn cyntaf fel Prif Weithredwr. Dymunodd iddo bob llwyddiant yn y swydd, gan nodi ei fod yn edrych ymlaen at gydweithio gydag ef dros y flwyddyn nesaf.

Llongyfarchwyd Andy Dunbobbin ar gael ei ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad o waith y Cynghorydd Edgar Owen fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd diwethaf. Nododd ei fod wir wedi cerdded yr ail filltir a bod parch mawr i'w dymor fel Cadeirydd. Ychwanegodd y bu'r flwyddyn ddiwethaf yn eithriadol o heriol, a bod y Cynghorydd Edgar Owen wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ymdopi â chadeirio cyfarfodydd y Cyngor yn rhithiol am y tro cyntaf yn hanes y Cyngor.

Croesawyd Dafydd Gibbard i'w gyfarfod Cyngor llawn cyntaf fel Prif Weithredwr a diolchwyd i Dilwyn Williams, y cyn Brif Weithredwr, am ei waith yntau dros y saith mlynedd diwethaf, gan ddymuno iddo ymddeoliad hir a hapus.

Nodwyd ei bod yn braf hefyd nodi i'r Cyngor gadw ei statws ar Lefel Aur gan asesydd Safon Iechyd Corfforaethol (Llywodraeth Cymru) yn dilyn cyflwyniad a sgwrs ynglŷn â'r hyn a wnaed i gefnogi lles meddyliol a chorfforol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

**7. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**8. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

**9. PENODI CADEIRYDD I'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Gwahoddwyd y Cyngor i benodi cadeirydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer 2021/22.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am 2021/22.**

Diolchodd y Cynghorydd Anne Lloyd Jones i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth, y Rheolwr Democratiaeth ac Iaith a staff y Gwasanaeth Democratiaeth am eu holl gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf.

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth ei adroddiad blynyddol ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau.

Diolchodd y Pennaeth i holl aelodau'r pwyllgor, ac i swyddogion y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyfeiriodd yn arbennig at ymdrechion arwrol Arweinydd a staff y Tîm Cyfieithu i sicrhau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd rhithiol, nid yn unig o fewn y Cyngor hwn, ond ar draws y rhanbarth hefyd gyda sefydliadau cyhoeddus eraill. Roedd gwaith y swyddogion Technoleg Gwybodaeth wedi bod yn allweddol hefyd, ac wedi galluogi i bawb gymryd y dechnoleg mor ganiataol bellach. Diolchodd hefyd i swyddogion y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad am gydgordio'r hyfforddiant, ac i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a'r Cynghorwyr Dewi Owen ac Anne Lloyd Jones fel cadeiryddion y pwyllgor dros gyfnod yr adroddiad dan sylw.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Mynegwyd pryder y gallai'r gost ychwanegol o weithio'n rhithiol o gartref fod yn rhwystr i rai sefyll etholiad i fod yn gynghorydd, ac y dylid sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gyngor cynhwysol. Mewn ymateb, nodwyd bod y Gwasanaeth yn fyw i'r bygythiad hwn, ac y byddai'n destun trafodaeth bellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ym Mehefin.
- Holwyd a roddwyd ystyriaeth i gynnig gwasanaeth cyfieithu i awdurdodau eraill, fel ffordd o ddod ag incwm ychwanegol i goffrau'r Cyngor. Mewn ymateb, eglurwyd bod y Gwasanaeth Cyfieithu eisoes yn darparu gwasanaeth cyfieithu i nifer o sefydliadau eraill. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd y gwasanaeth hefyd wedi cynorthwyo nifer o awdurdodau lleol eraill, ayb, er mwyn cyflwyno systemau sy'n caniatáu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd rhithiol. Roedd incwm yn dod i mewn eisoes gan sefydliadau am y gwasanaeth cyfieithu a ddarperir gan Wynedd, ond roedd lle i ystyried ymestyn hynny ymhellach.
- Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi bod yn flaengar yn symud i gynnal cyfarfodydd rhithiol yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf, a'i fod yn esiampl i gyrff eraill ar draws Cymru.
- Nodwyd bod cynnal cyfarfodydd yn rhithiol yn arbed llawer o gostau teithio i'r Cyngor ac amser teithio i'r aelodau, ac y dylid ystyried hyn fel y ffordd ymlaen i'r dyfodol.
- Mynegwyd y farn y dylai'r Pwyllgor Cynllunio gyfarfod wyneb yn wyneb er mwyn cynnal ei statws fel pwyllgor teg a chadarn. Nodwyd hefyd na fu'n bosib' i'r aelodau fynd ar ymweliadau safle, oedd mor bwysig o safbwynt gwneud y penderfyniadau cywir ar geisiadau cynllunio.
- Mynegwyd y farn y dylai'r Cyngor llawn a'r Pwyllgorau Craffu gyfarfod wyneb yn wyneb, ond y dylid rhoi'r dewis i aelodau fynychu cyfarfodydd eraill yn rhithiol neu wyneb yn wyneb. Mewn ymateb, eglurwyd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ymgorffori'r drefn rithiol o weithio, yn ogystal â hybrid a chyffredin, ac y byddai'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu polisi ynglŷn â'r drefn. Gan hynny, byddai cyfle i'r aelodau gyfrannu i'r drafodaeth ynglŷn â ffurf a siâp y pwyllgorau i'r dyfodol yn fuan.
- Nodwyd bod y drefn hybrid wedi bod yn llwyddiannus mewn llefydd eraill. Roedd y Cyngor hwn wedi bod yn flaenllaw yn sefydlu trefn rithiol, a gallai wthio eto i fod ar y blaen o ran trefn hybrid. Mewn ymateb, eglurwyd bod y Cyngor eisoes yn buddsoddi mewn darpariaeth fyddai'n caniatáu'r hyblygrwydd yna yn y dyfodol agos, a diau y gellid symud ymlaen a chytuno ar hynny'n fuan iawn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Diolchwyd i'r Pennaeth am ei gyflwyniad.

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020/21**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ei hadroddiad blynyddol mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Gwynedd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Nododd y Cyfarwyddwr, oherwydd y pandemig, fod 2020/21 wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i'r blynyddoedd a fu, ac yn flwyddyn na ddymunid gweld ei thebyg fyth eto. Cydymdeimlodd â phawb oedd wedi colli anwyliaid i'r firws, a diolchodd i bob un o weithwyr gofal y sir, oedd wedi mynd tu hwnt i'r gofyn i roi'r gofal gorau bosib' i'r trigolion. Nododd hefyd fod y cydweithio ar draws Gwynedd wedi bod yn ysbrydoliaeth i bawb, ac y gwelwyd y gorau o bobl yng Ngwynedd, yn staff, gwirfoddolwyr, pencampwyr yn y cymunedau ac aelodau etholedig.

Nododd ymhellach, er gwaetha'r heriau a wynebwyd yn sgil y pandemig, ei bod yn falch o nodi fod perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn a fu wedi bod yn gadarnhaol unwaith eto. Fodd bynnag, wrth ganolbwyntio ar ymdopi gyda'r argyfwng Cofid, roedd rhai blaenoriaethau wedi llithro rhywfaint, neu wedi eu rhoi o'r neilltuo am y tro. O ganlyniad, roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y ffordd yr ymatebwyd i'r pandemig a'r modd y parhawyd i gynnal a darparu'r gwasanaethau hanfodol, yn ogystal â datblygu a darparu gwasanaethau newydd.

Eglurodd fod llu o staff a rheolwyr gweithgar ac ymroddedig y tu ôl i'r perfformiad yma, yn ogystal â gofalwyr sy'n deulu neu ffrindiau, rhieni maeth a gwirfoddolwyr. Roedd y pandemig wedi dangos bod gwasanaethau gofal cadarn yn y cymunedau yn hollol hanfodol, a mawr obeithid y byddai polisïau a threfniadau, ayb, i'r dyfodol yn amlygu bod y sector gofal cyn bwysiced â'r gwasanaethau iechyd.

Pwysleisiodd y byddai hi a'r penaethiaid yn cadw golwg barcud ar effaith y flwyddyn ddiwethaf ar y staff yn yr hir dymor a'r tymor byr / canolig. Roedd cefnogaeth iechyd meddwl ar gael i'r staff, ac roedd rhaid bod yn byw i anghenion staff unigol, a cheisio rhagweld y problemau i'r dyfodol. Roedd y pandemig hefyd wedi gadael effaith ar boblogaeth y sir o ran cyflogaeth, unigrwydd, iselder, ayb, ac roedd y Bwrdd Cefnogi Pobl yn edrych ar faterion llesiant, ac wedi dysgu o'r profiadau Cofid er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn y ffordd orau bosib'.

Ychwanegodd nad oedd perfformiad da yn bosib' heb y gefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol, a diolchodd i bawb o'r aelodau am eu gwaith drwy gydol bob blwyddyn yn cefnogi, herio a chynnig sylwadau a syniadau newydd. Diolchodd i'r ddau Aelod Cabinet yn y maes gofal, y Cynghorwyr Dafydd Meurig a Dilwyn Morgan, ac i'r Arweinydd a gweddill y Cabinet a Chadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal am eu cymorth parhaus a'u cefnogaeth i'r maes. Manteisiodd hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Pennaeth Plant a Theuluoedd a'r uwch reolwyr a'r rheolwyr. Diolchodd hefyd i adrannau eraill y Cyngor am eu parodrwydd i gamu i mewn a chefnogi'r gwaith gofal cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolchodd yn arbennig i Dilwyn Williams am ei arweiniad a'i gefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Prif Weithredwr, gan nodi ei bod yn edrych ymlaen at gydweithio gyda Dafydd Gibbard, fel y Prif Weithredwr newydd.

I gloi, nododd y byddai 2021 yn sialens hefyd, ond drwy gydweithio a rhannu a chynnig syniadau, roedd yn hyderus y gellid parhau i gynnig y gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:-

- Nodwyd bod adran Gwynedd o Profi Olrhain Diogelu wedi gwneud gwaith arbennig o dda.
- Nodwyd, waeth pa mor galed roedd y Cyngor yn gweithio, yn enwedig yn y maes iechyd meddwl, nad oedd modd cael y maen i'r wal os nad oedd gan y Bwrdd Iechyd staff digonol, a phwysleisiwyd yr angen i hyfforddi meddygon a nyrsys ym Mangor, ar y cyd rhwng yr Ysbyty a'r Brifysgol.
- Diolchodd y ddau Aelod Cabinet yn y maes gofal i'r Cyfarwyddwr am ei chefnogaeth a'i harweiniad, ac i bob aelod o'r staff, yn enwedig y staff rheng flaen, am eu holl waith, a'u haberth bersonol ar adegau, er budd pobl fregus Gwynedd.
- Diolchwyd i'r staff am eu parodrwydd i gynorthwyo'r aelodau i ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd.
- Nodwyd y byddai effeithiau'r pandemig yn parhau am flynyddoedd, a galwyd ar gyd-aelodau i gynorthwyo gyda'r baich er lles y swyddogion a phobl Gwynedd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chapasiti'r Adran i wynebu'r problemau sy'n ein hwynebu yn y dyfodol yn sgil Cofid a Brexit, eglurwyd bod y mater recriwtio

yn y maes gofal wedi'i gynnwys yng nghofrestr risg y ddwy Adran. Nid oedd yna atebion hawdd i hyn, ond byddai'n rhaid gwneud y maes yn flaenoriaeth, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd. Roedd yn rhaid cael yr ariannu gan y Llywodraeth i sicrhau bod modd talu cyflogau teg yn y sector yn ei gyfanrwydd. Nid oedd yn glir eto pa fath o wasanaeth fyddai ei angen yn sgil y profiadau gyda Chofid, ond roedd yn bwysig gallu bod yn ymatebol a gallu ateb rhai o'r problemau mewn ffordd mor adeiladol a rhagweithiol ag y gellid.

- Gofynnwyd pa fath o ymateb a gafwyd i'r ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol diweddar i recriwtio gweithwyr yn y maes gofal, a holwyd beth allai'r aelodau wneud i hybu hyn. Mewn ymateb, nodwyd bod yr ymgyrchoedd wedi gwella'r sefyllfa. Credid bod modd gwneud mwy, ac efallai bod sgôp i gael mwy o'r ymdeimlad lleol i rai o'r swyddi hefyd, fel bod modd cefnogi unrhyw un sydd braidd yn ofnus o ymgeisio am swydd mewn cyngor neu gyda darparwr. Gallai rôl yr aelodau fod yn allweddol o ran hynny. Roedd yn rhaid ystyried y gweithwyr cymdeithasol hefyd, gan sicrhau bod digon yn cael eu cefnogi i gwblhau gradd uwch i ddod i mewn i'r maes. Diau y byddai'r Pwyllgor Craffu Gofal yn cadw golwg ar y gwaith sy'n digwydd, a gwahoddwyd unrhyw un oedd â syniadau ynglŷn â sut i wella'r systemau recriwtio a'r ymgyrchoedd ddod i gysylltiad â'r Adran i drafod ymhellach.
- Holwyd sut y gallai'r Cyngor gefnogi'r bobl hynny sydd ar y lein ac yn methu cael arian o unman. Mewn ymateb, eglurwyd y credid bod gwaith y Bwrdd Cefnogi Pobl yn mynd i'r cyfeiriad yma, gan ei fod yn cynnwys ffrydiau gwaith penodol o ran cyflogaeth, tlodi, iechyd meddwl, llesiant, ayb, ond y gellid trafod hyn ymhellach gyda'r aelod y tu allan i'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr am ei chyflwyniad.

## 12. YMESTYN PENODIAD AELOD LLEYG O'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid adroddiad yn gofyn i'r Cyngor ymestyn penodiad Mrs Sharon Warnes fel aelod lleyg o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am flwyddyn ychwanegol, hyd at etholiad Mai 2022, gan fod y cyfnod llywodraeth leol presennol yn dod i ben yn 2022, a gyda newidiadau cyfansoddiadol yn golygu y bydd newidiadau eithaf sylweddol i aelodaeth y pwyllgor yn dod yn weithredol o Fai 2022, yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Nododd yr Aelod Cabinet Cyllid, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac aelodau o'r pwyllgor, fod Mrs Sharon Warnes wedi bod yn aelod gweithgar iawn dros y blynyddoedd.

**PENDERFYNWYD ymestyn penodiad Mrs Sharon Warnes fel aelod lleyg o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am flwyddyn ychwanegol, hyd at etholiad Mai 2022.**

## 13. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth adroddiad ar yr adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth fod y Cynghorydd Freya Bentham, Aelod Harlech / Talsarnau, wedi cyflwyno ei hymddiswyddiad ers cyhoeddi'r adroddiad, ac y bwriedid adrodd ymhellach ar unrhyw newid i'r cydbwysedd gwleidyddol yn sgil hynny i'r Cyngor ym mis Gorffennaf, yn dilyn cynnal isetholiad.

Nododd hefyd y cydnabyddid bod y fformiwla dyrannu seddau ar bwyllgorau yn gymhleth, ond bod hyn yn drefn statudol oedd yn cael ei gweithredu'n gyson ar draws cynghorau Cymru. Gan hynny, roedd y Tîm Democratiaeth a'r Tîm Cyfathrebu yn y broses o gynhyrchu fideo byr er mwyn cynorthwyo pawb i ddeall y drefn yn well.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r rhestr o bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol fel a nodir yn yr atodiad i'r cofnodion hyn, ynghyd â mabwysiadu'r dyraniad seddau yn unol â'r hyn a nodir yn yr atodiad.**

**(b) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth wneud penodiadau i'r pwyllgorau ar sail cydbwysedd gwleidyddol ac yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol.**

**(c) Mabwysiadu cadeiryddiaethau'r pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi** | **Grŵp Annibynnol** |
| **Pwyllgor Craffu Cymunedau** | **Grŵp Plaid Cymru** |
| **Pwyllgor Craffu Gofal** | **Grŵp Annibynnol** |

## 14. YMATEB I RYBUDD O GYNNIG BLAENOROL

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Brif Weithredwr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Glyn Daniels i gyfarfod 1 Hydref, 2020 ynglŷn â'r posibilrwydd o godi tâl ar ymwelwyr am ymweld â rhannau o'r Parc Cenedlaethol.

Nododd aelod ei anfodlonrwydd ei bod wedi cymryd pum mis a hanner i gyflwyno'r ymateb i aelodau'r Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 2.55yp.

____________________________________

**CADEIRYDD**

**ATODIAD A – DYRANIAD SEDDI AR BWYLLGORAU**

| A | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi | 10 | 5 | 1 | 1 | 1 | 0 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 10 | 5 | 2 | | 0 | 1 | 18 |
| Pwyllgor Craffu Gofal | 10 | 5 | 1 | 1 | 0 (i lawr o 1) | 1 ( i fyny o 0) | 18 |
| Archwilio a Llywodraethu | 10 | 5 | 1 | | 1 | 1 | 18 |

| B | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Democrataidd | 8 | 4 | 1 | 1 | 1 | | 15 |
| Cynllunio | 8 | 4 | 1 | | 1 | 1 | 15 |
| Trwyddedu Canolog | 8 | 4 | 1 | | 0 | 2 | 15 |
| Iaith | 8 | 5 | 1 | | 1 | | 15 |
| Penodi Prif Swyddogion | 8 | 4 | 1 (i lawr o 2) | 1 | 0 | 1 (i fyny o 0) | 15 |
| Apelau Cyflogaeth | 4 | 2 | 1 | | 0 | | 7 |
| **Nifer y seddau** | **84** | **43** | **11** | **4** | **5** | **7** | **154** |

| C | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Y Blaid Genedlaethol | Annibynnol Unedig Gwynedd | Aelod Unigol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pensiynau | 4 | 2 | 0 | | 0 | 1 | 7 |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol | 6 | 3 | 1 | | 1 | | 11 |
| CYSAG | 4 | 1 (i lawr o 2) | 0 | 1 | 0 | 1 (i fyny o 0) | 7 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd | 5 | 2 | 1 | | 0 | | 8 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y seddau** | **103** | **51** | **13** | **5** | **6** | **9** | **187** |

Yn unol â phenderfyniad blaenorol y Cyngor telir yr uwch gyflogau a ganlyn:

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- 8 aelod arall o'r Cabinet
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf
- Cadeiryddion Pwyllgorau
    - Pwyllgor Craffu ( x3 )
    - Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
    - Pwyllgor Cynllunio
    - Pwyllgor Trwyddedu (Canolog a Chyffredinol yn cael ei gyfrif fel un Pwyllgor)
    - Pwyllgor Pensiynau